# PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 11 Gorffennaf, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Y Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Ball, C.A. Cave, A.M. Collins, C.M. Cowpe, R. Fisher, E.J. Goodjohn, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr C.P. Franks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd I.R. Buckley.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CAU CYFRIFON 2023/23 (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigir ynddo.

(2) NODI dyraniad gwarged cyffredinol y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad ar yr alldro a'r mesurau ariannol a gymerwyd.

(2) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ddyrannu gwarged 2022/23 i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau sy'n cefnogi blaenoriaethau allweddol a nodwyd gan y Cyngor.

EITEM AGENDA 5. CAU CYFRIFON CYFALAF 2022/23 (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

(2) NODI'r cyllidebau cynllun ychwanegol, fel y'u nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

(3) NODI'r sefyllfa gryno o'r newidiadau yn y Rhaglen Gyfalaf fesul cyfarwyddiaeth o'u cymeradwyo gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2022 i 31 Mawrth 2023, fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad.

(4) NODI'r Pwerau Argyfwng a gymeradwywyd mewn perthynas â'r llithriad, fel y nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad ar y sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn am y flwyddyn ariannol 2022/23.

(2) Hysbysu'r Pwyllgor am y cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd at y Rhaglen Gymeradwy ar gyfer 2022/23.

(3) Hysbysu'r Pwyllgor am y newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf Gymeradwy a osodwyd ar 7 Mawrth 2022.

(4) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y llithriad a gymeradwywyd yn y Pwerau Argyfwng yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.

EITEM AGENDA 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2022-2023 – FERSIWN HER (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r adroddiad eglurhaol a chynnwys Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-2023 – Fersiwn Her.

(2) NODI'r blaenoriaethau gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y'u hamlinellir yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2022-2023 – Fersiwn Her.

(3) CYMERADWYO Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-2023 – Fersiwn Her, fel y'i cyflwynwyd.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried yr adroddiad eglurhaol a'r adroddiad atodol i roi cyfle i Aelodau Etholedig gyfrannu at y broses herio ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 2022-2023.

EITEM AGENDA 7. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2022/23 (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI canlyniadau perfformiad Chwarter 4 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y DYLID nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni ei ofynion perfformiad fel yr amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei fod wedi gwneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni'r nodau llesiant ar gyfer Cymru.